# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN, AR DDYDD MERCHER 27 CHWEFROR 2019 AM 10.30AM.

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd D. Poole – Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), Mrs B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), P. Marsden (Addysg a Chyflawniad), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) ac E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ynghyd â:

D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau) ac R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol).

Hefyd yn bresennol:

R. Kyte (Pennaeth Adfywio a Chynllunio), M. Headington (Rheolwr Gwasanaethau Mannau Gwyrdd a Chludiant), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), M. Williams (Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Eiddo), C. Forbes-Thompson (Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd) ac A. Dredge (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro).

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd D.V. Poole fuddiant personol a rhagfarnol mewn perthynas ag eitem 4 – Caeau Chwarae Ysgol Bedwellte. Gadawodd yr ystafell pan gyflwynwyd yr adroddiad ac ni chymerodd ran yn y ddadl na'r bleidlais.

### 3. CABINET – 13 CHWEFROR 2019

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2019 (cofnodion rhifau 1–9) a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## MATERION A OEDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## 4. CAEAU CHWARAE YSGOL BEDWELLTE

Datganodd y Cynghorydd D.V. Poole fuddiant personol a rhagfarnol mewn perthynas â'r eitem hon gan ei fod yn byw yn agos at y safle. Roedd y Cynghorydd S. Morgan yn llywyddu fel Cadeirydd wrth i'r adroddiad gael ei gyflwyno a'i ystyried.

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Mannau Gwyrdd a Chludiant yr adroddiad a oedd yn ceisio barn y Cabinet ar y bwriad i gael gwared ar ddau gae pêl-droed yn hen safle Ysgol Gyfun Bedwellte, Aberbargod, (yr ardal â llinellau coch ar y Cynllun a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad) ar gyfer datblygiad preswyl.

Ym mis Ionawr 2018, gwerthodd yr Awdurdod Lleol safle'r hen ysgol, wedi'i amlinellu'n las ar gynllun y safle (ynghlwm wrth yr adroddiad), ar gyfer datblygiad preswyl. Roedd y pafiliwn, a oedd yn rhan o'r caeau chwarae, yn sefyll ar y tir a werthwyd ar gyfer datblygiad preswyl. Bu angen meddiant gwag ar y prynwr erbyn diwedd mis Mai 2018, felly, symudwyd y pafiliwn (a oedd yn adeilad modwlaidd) o'r safle, a'i sgrapio. Nododd yr Aelodau nad oedd y pafiliwn yn addas i'r diben ac y bu mewn sawl lleoliad arall. Yn ei gyfarfod ar 25 Ebrill 2018, penderfynodd y Cabinet y byddai'r caeau chwarae yn cael eu datgan yn weddill ar ddiwedd y tymor (20 Mai 2018). Byddai'r broses o gydymffurfio â Mesur Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2010 a Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015 yn cychwyn.

Cyfeiriwyd y Cabinet at baragraffau 4.5. a 4.6. yn yr adroddiad a oedd yn crynhoi'r broses ymgynghori 7 wythnos a wnaed mewn perthynas â'r caeau chwarae. Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 4 Hydref 2018, ac roedd yr ymatebion a ddaeth i law hefyd ynghlwm wrth yr adroddiad. Dywedodd y Swyddog y daeth tri ymateb i law gan drigolion lleol, ac roedd pawb o blaid cael gwared ar y safle. Mynegodd un preswylydd lleol bryderon ynghylch tagfeydd oherwydd parcio ceir yn ystod gemau. Daeth ymateb ar y cyd i law gan Chwaraeon Cymru a Meysydd Chwarae Cymru (‘Fields in Trust’) a oedd yn gwrthwynebu'r posibilrwydd o golli'r cyfleuster. Mae'r gwrthwynebiad yn canolbwyntio ar y ffaith y bydd Clwb Pêl-droed Trelyn yn rhannu cyfleusterau â Chlwb Rygbi Trelyn, ac ni ellir ystyried un maes yn ddarpariaeth gyfatebol. O ran darpariaeth leol, eglurwyd bod 7 o gaeau chwarae yn y cyffiniau lleol. Cyfeiriodd y Swyddog at Atodiad 3, sy'n dangos nad oes prinder darpariaeth yn yr ardal leol a bod lle i bob un o'r timau lleol neu y gellir cynnig lle i bob un ohonynt. Yn ogystal, er gwaethaf deialog gadarnhaol â Chlwb Pêl-droed Trelyn, daeth sylwadau ysgrifenedig i law mewn perthynas â'r cyfleusterau ym Mharc Trelyn, a chyfeiriwyd hefyd at bryderon diogelu yn y pafiliwn. Sicrhawyd y Cabinet fod Swyddogion eisoes wedi cwrdd â'r ddau glwb ar y safle i ystyried opsiynau i newid/cyfyngu mynediad y tu mewn i'r pafiliwn. Os oes unrhyw bryderon eraill, bydd Swyddogion yn parhau i weithio gyda'r clwb/clybiau i ddatrys unrhyw broblemau. Dywedwyd wrth yr Aelodau am y broses sydd i'w chyflawni gan Swyddogion, pe bai'r argymhelliad yn cael ei gymeradwyo. Eglurwyd na chaiff y Cyngor fwrw ymlaen â'r cynnig i gael gwared ar y caeau hyd nes y bydd cyfnod o 12 wythnos wedi dod i ben o ddiwrnod cyhoeddi'r hysbysiad cyntaf. Bwriad hyn yw darparu cyfnod gofynnol rhesymol lle gall gwrthwynebwyr gychwyn her gyfreithiol i benderfyniad yr Awdurdod.

Cadarnhaodd y Swyddog yr ymgynghorwyd ag Aelodau ward lleol yn ystod camau cychwynnol y broses hon ac ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a geir yn adroddiad y Swyddog, i werthu'r caeau chwarae (sef yr ardal â llinellau coch ar y cynllun yn Atodiad 1) ar gyfer datblygiad preswyl.

## 5. ADOLYGIAD O GRANTIAU ADFYWIO CBSC

Cyflwynodd Pennaeth Adfywio a Chynllunio yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ymgynghori ar gynigion i gyfuno nifer o raglenni grant. Yn dilyn adolygiad a wnaed o'r cynlluniau grant refeniw a chyfalaf a weinyddir gan Is-adran Adfywio y Cyngor, argymhellir cyfuno'r grantiau presennol yn ***"Gronfa Mentrau Caerffili"*** gyfunol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu twf busnes a chreu cyfleoedd cyflogaeth. Er mwyn darparu ar gyfer hyn, mae Swyddogion yn bwriadu cyfuno nifer o raglenni grant, gan gynnwys y Gronfa Adfywio Cymunedol, a chanolbwyntio eu cyllidebau ar Gronfa Mentrau Caerffili.

Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet fod y cynlluniau grant presennol (ceir crynodeb ym mharagraff 2.1 yn yr adroddiad) yn cael eu gweinyddu gan y Timau Adnewyddu Trefol a Chymorth Busnes ac Ariannu yn yr Adran Adfywio. Maent yn cynnig cymorth ariannol i'r sectorau masnach/busnes a'r sectorau cymunedol/gwirfoddol. Gan fod cymysgedd o grantiau a ariennir drwy gyfalaf a refeniw, mae'n ofynnol eu rheoli a'u cadw ar wahân. Bydd y posibilrwydd o ran cyfuno'r grantiau yn un "Gronfa Mentrau Caerffili" yn cynnig cymorth gwell i fusnesau newydd, yn ysgogi twf economaidd, yn llenwi bylchau amlwg yn y gadwyn gyflenwi, ac yn rhoi cymorth o ran creu swyddi.

Mae Swyddogion yn bwriadu terfynu'r Gronfa Adfywio Cymunedol a chanolbwyntio'r gyllideb ar Gronfa Mentrau Caerffili. Mae'r gwaith da y mae'r sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol yn ei gyflawni yn cael ei gydnabod yn llawn, ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr, ond mae'n amlwg bod yna nifer o fecanweithiau ariannu allanol y gallant wneud cais iddynt i sicrhau arian ar gyfer prosiectau cymunedol lleol. Cyfeiriwyd at Atodiad 1, sy'n nodi'r grantiau sydd ar gael i'r grwpiau hyn ar hyn o bryd. Os caiff y Gronfa Adfywio Cymunedol ei chau, bydd Swyddogion yn parhau i gynnig cymorth ac arweiniad i grwpiau sy'n chwilio am gyllid, a byddant yn eu cyfeirio at grantiau allanol priodol sydd ar gael. Mae'r sector gwirfoddol wedi mynegi pryderon mewn perthynas â'r cynigion, a chadarnhawyd y bydd Swyddogion yn mynychu Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol ar 14 Mawrth 2019 i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd.

Nodwyd y cyfraddau ymyrryd a'r terfynau grant arfaethedig ym mharagraff 4.3.1. yn yr adroddiad. Cadarnhawyd y byddai angen i unrhyw brosiect a ariennir gan grant ddangos y bydd yn cyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y fwrdeistref sirol. Nododd y Cabinet y cynnig i ymestyn y ffin ddaearyddol bresennol ar gyfer Cronfa Budd Cymunedol Oakdale o 1.5 filltir i 2 filltir. Byddai hyn yn ychwanegu cymunedau Markham, Cefn Fforest, Coed Duon, rhan o Drecelyn a Chrymlyn i'r cymunedau cymwys presennol, sef Argoed, Croespenmaen, Kendon, Oakdale, Penmaen, Pen-twyn a Thrinant. Byddai hefyd yn cynnwys cymunedau Llanhiledd, Brynithel ac Aberbîg ym Mlaenau Gwent, a nodwyd bod nifer o gynlluniau tebyg ar draws y Deyrnas Unedig yn torri ar draws ffiniau lleol. Ni awgrymir y dylai cymunedau y tu allan i ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gael mynediad i'r gronfa hon. Darperir y gronfa hon o gyfraniad gan gwmni preifat a fyddai angen cytuno i ehangu'r ffin.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad, a theimlai y dylai'r Sector Busnes gael ei ystyried hefyd fel rhan o'r broses ymgynghori ehangach.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, yn amodol ar ddiwygiad ym mharagraff 11.2. i gynnwys "*and the Business Sector*" ac am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog:-
>
> (i) nodi cynnwys yr adroddiad, a'r egwyddorion a nodir ynddo;
>
> (ii) cymeradwyo Swyddogion i gynnal proses ymgynghori ehangach gyda'r Sector Gwirfoddol, Grwpiau Cymunedol a'r Sector Busnes ynglŷn â chynnwys yr adroddiad;

(iii) cyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet yn dilyn y broses ymgynghori.

**6. ARIANNU AR GYFER GOSOD GOLEUADAU YNNI EFFEITHLON LEDLED TŶ PENALLTA**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Gartrefi a Lleoedd yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet o ran trefniadau ariannu ar gyfer gosod goleuadau ynni effeithlon ledled swyddfeydd Tŷ Penallta.

Dywedwyd wrth y Cabinet y bydd ffitiadau LED (Deuodau Allyrru Golau) modern sy'n defnyddio ynni'n effeithlon yn cael eu gosod yn lle'r goleuadau fflworoleuol presennol yn Nhŷ Penallta. Bydd y prosiect hwn, sydd werth £175,000, yn sicrhau lleihad o £24,000 o ran y bil trydan blynyddol ac yn sicrhau lleihad o 83 tunnell y flwyddyn o ran ôl troed carbon yr Awdurdod. Mae'r prosiect uwchraddio wedi'i gymeradwyo i gael ei ariannu drwy'r cynllun buddsoddi i arbed, sef cynllun Cyllido Ynni'r Awdurdod Lleol ('LEAF'), a gall y gwaith ddechrau ym mis Chwefror 2019. Cynigir defnyddio cyfran o'r tanwariant rhagamcanol o ran Cyllid Amrywiol ar gyfer talu'r benthyciad yn 2018/19, a fydd yn caniatáu datgan yr arbedion ynni blynyddol fel arbediad rheolaidd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Bydd y cronfeydd a ryddheir drwy gynllun Cyllido Ynni'r Awdurdod Lleol yn cael eu dargyfeirio i brosiectau arbed ynni eraill yn adeiladau'r Awdurdod.

Trafododd yr Aelodau fuddion y goleuadau sy'n defnyddio ynni'n effeithlon a fydd yn caniatáu i danwariant yn ystod y flwyddyn gael ei ddefnyddio i fuddsoddi mewn prosiect a fydd yn sicrhau arbedion cost refeniw cylchol â chyfnod ad-dalu o tua 7 mlynedd. Mae'r arbedion rhagamcanol o ran cost trydan yn seiliedig ar daliadau trydan fesul uned yn 2018/19 a phrofiad gweithredu mewn perthynas ag oriau gweithredu. Mae'n debygol y bydd costau trydan yn cynyddu, felly, ystyrir yr arbedion rhagamcanol yn rhai ceidwadol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a geir yn adroddiad y Swyddog, i gymeradwyo defnyddio cyfran o'r tanwariant rhagamcanol o ran Cyllid Amrywiol i ariannu prosiect uwchraddio goleuadau Tŷ Penallta, sy'n costio £175,000, a datgan yr arbedion cysylltiedig o ran cost ynni, sef £24,000, fel arbediad yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

**7. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET**

Rhoddodd y Cadeirydd ganiatâd i ohirio'r eitem hon tan y cyfarfod nesaf er mwyn gallu diweddaru'r flaenraglen waith. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a drafodwyd yn ystod y cyfarfod, i ohirio'r adroddiad i'r cyfarfod nesaf.

Terfynwyd y cyfarfod am 11.00am.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 13 Mawrth 2019.

______________________

CADEIRYDD